OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 2020

## Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) (Diwygio) 2015

**Diwygio rheoliad 6 (dehongli)**

**3.**—(1) Yn rheoliad 6 (dehongli), yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder——

““ystyr “daliad a randdirymwyd” (“*derogated holding*”) yw daliad y mae gan randdirymiad effaith drosto”;

“ystyr “rhanddirymiad” (“*derogation*”) yw rhanddirymiad a roddir o dan Ran 3A o derfyn y cyfanswm o nitrogen mewn tail da byw y gellir ei ddodi ar dir bob blwyddyn yn unol â pharagraff 2(b) o Atodiad III o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/676/EEC a Phenderfyniad y Comisiwn 2013/781/EU(**1**)

“ystyr “cais i randdirymu” (“*derogation application*”) yw cais am randdirymiad”;

(2) yn y diffiniad “cynllun gwrteithio” ar ôl y geiriau “reoliad 14(1)(c)” mewnosoder—

““neu gynlluniau eraill cyffelyb sy’n ofynnol o dan Atodlen 5.”.

(**1**) OJ Rhif L 346, 20.12.2013, t 65.